VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

**CYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU**

**Fforwm Derbyn i Ysgolion (MS Teams)**

**17 Tachwedd, 2023**

**<u>COFNODION</u>**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Rhian Birch, Lisa Lewis, Sam Mawhinney, Anne Robertson, Rhian Andrew, Ceri Thomas, Natasha Burton, Sarah Owens, Rebecca Morteo, Charlotte Robins, Jeremy Morgan

**YMDDIHEURIADAU:** Jane Werrett, Mike Matthews, Siân Lewis, Ceri Hunt

| EITEM | MATER | CAMAU I'W CYMRYD | Aelod |
|---|---|---|---|
| 1 | Ymddiheuriadau | Nodwyd yr ymddiheuriadau | |
| 2 | Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol | Gwiriwyd y cofnodion am gywirdeb a chytunwyd arnynt fel cofnod cywir. | |
| 3 | Materion yn codi | Dd/B | |
| 4 | Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (NS) | Rhoddodd N.B ddiweddariad am yr holl brosiectau Band B presennol ac wedi'u cwblhau – Y Ganolfan Dysgu a Lles, Ysgol Gynradd y Bont-faen, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas, Ehangu YYD, Ysgol Sant Baruc, Derw Newydd, Ysgol Iolo Morgannwg, Ysgol Uwchradd Gatholig St Richard Gwyn ac Ysgol Stanwell. Bydd Band B yn dod i ben yn 2024.<br>Diweddariad am y cynnydd ar brosiectau ers y cyfarfod diwethaf, Tachwedd 2022.<br>Prosiectau yn y dyfodol fel Ysgol Gynradd Gymraeg yn ardal Penarth. Adolygiad o'r rhaglen dreigl sydd ar y gweill dros y 9-12 mlynedd nesaf i'w gynnal ym mis Mawrth 2024. | |
| 5 | Adroddiad Blynyddol Drafft y Fforwm Derbyn i Ysgolion 2022-23 | Adroddiad ynghlwm; pawb i roi sylwadau a chadarnhau. | |
| 6 | Ymgynghoriad ar drefniadau derbyn 2025-26 | Dywedodd S.M. am barhad y meini prawf ysgolion cynradd bwydo hyd at 2027/28. Adroddiad ynghlwm; pawb i roi sylwadau a chadarnhau. | |
| 7 | Diweddariad am y rowndiau derbyn blynyddol ac apeliadau (SM) | Rhoddodd S.M. yr wybodaeth ddiweddaraf am y rownd dderbyn bresennol gyda ffigurau ceisiadau uwchradd. Nid yw'r rownd gynradd wedi dechrau eto, ond rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am broses y llynedd gan obeithio y bydd y llwyddiant yn parhau. | |
| 8 | Cynllun Strategol Cymraeg mewn | Cyflwynodd J.M. yr wybodaeth ddiweddaraf am CSCA, ysgolion a chapasiti. Cadarnhaodd J.M. fframwaith a thargedau'r CSCA yn unol â Cymraeg | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Addysg (CSCA) y Fro | 2050. Mae LlC yn canolbwyntio ar ddarpariaeth blynyddoedd cynnar a thargedu cynnydd yn y grŵp oedran hwn yn benodol. Amlinellwyd a thrafodwyd y 7 canlyniad yn y CSCA fel y'u pennwyd gan LlC. Nododd J.M. sut mae'r CSCA yn monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu ar gyfer pob canlyniad a gweithgorau'r CSCA a'r hyn y mae pob grŵp yn gyfrifol amdano.<br>Amlinellwyd aelodaeth gweithgorau Fforwm Addysg Gymraeg a'r CSCA. | |
| 11 | Dyddiad y cyfarfod nesaf | Gofynnodd L.L. i'r aelodau am unrhyw ddyddiadau/diwrnodau a ffefrir ar gyfer cynnal y cyfarfod.<br>Dyddiad arfaethedig – Llun 3 Mehefin 2024 | |
| 10 | Unrhyw Fusnes Arall | Dim sylwadau | |